Y Bwrdd Taliadau

# Adolygiad thematig

# Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau

# Cylch gorchwyl

**Mawrth 2024**

## Diben

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Thematig o Daliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau.

## Amcanion

2. Bydd yr adolygiad yn ceisio sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn cyd-fynd â'r amcanion statudol a ganlyn:

- sicrhau bod y tâl a gaiff Aelodau o'r Senedd
  - yn adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, a sicrhau
  - nad yw, am resymau ariannol, yn atal pobl sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ymgeisio i gael eu hethol i'r Senedd,
- sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau.

## Egwyddorion

3. Mae holl waith y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cael ei seilio ar gyfres o egwyddorion:

- Dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau
- Rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru

- Rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## Cylch Gorchwyl

4. Bydd yr adolygiad yn ystyried cyflogau'r Aelodau, cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol, cymorth personol, costau teithio a llety preswyl yr Aelodau, a chymorth i Aelodau sy'n gadael eu swydd. Er nad yw costau teithio a llety preswyl yn dâl nac yn gydnabyddiaeth ariannol, maent wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn gan eu bod yn helpu i gydbwyso ymrwymiadau personol ac ymrwymiadau gofalu'r Aelodau, lle bo hynny'n berthnasol, gan eu galluogi a'u cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion teithio a llety cysylltiedig â'u gwaith.

5. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth personol i'r Aelodau er mwyn ceisio lleihau rhwystrau, hyrwyddo hygyrchedd a hybu amrywiaeth a chydraddoldeb yn y Senedd newydd a sicrhau cyfnod pontio didrafferth i fywyd ar ôl y Senedd.

6. Bydd hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â meysydd cymorth fel hyblygrwydd, niwtraliaeth garbon, a diogelwch a lles yr Aelodau.

7. Bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n dair ffrwd waith wahanol:

   - Ffrwd waith un: Tâl ac Amodau'r Aelodau (sy'n ymdrin â darpariaethau ym Mhennod 3 a 3A o'r Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau)
   - Ffrwd waith dau: Llety Preswyl a Theithio (Penodau 4 a 5 o'r Penderfyniad)
   - Ffrwd waith tri: Aelodau sy'n gadael eu swyddi (Pennod 9 o'r Penderfyniad)

8. Wrth gynnal yr adolygiad, bydd y Bwrdd yn:

   - Ystyried unrhyw newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau yn y Senedd yn ddiweddar
   - Ystyried goblygiadau diwygio'r Senedd o ran nifer yr Aelodau, eu cyfrifoldebau a'r amrywiaeth o 'ddeiliaid swyddi ychwanegol' a fydd yn gallu hawlio cyflog ychwanegol
   - Ceisio barn yr Aelodau am unrhyw newidiadau angenrheidiol i Benderfyniad y Seithfed Senedd

- Ceisio barn y cyhoedd a Chomisiwn y Senedd, rhanddeiliaid, casglu tystiolaeth gymharol ac ystyried methodolegau a ddefnyddir yn seneddau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.